

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	18 Tachwedd 2015
TEITL	Her Gwynedd
PWRPAS	Gwybyddu Aelodau
AWDUR	Rheolwr Gwasanaeth AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Her Gwynedd yw'r enw sydd wedi ei roi ar ymarferiad gan Gyngor Gwynedd ar sut i ddelio efo diffyg yng nghyllideb y Cyngor yn y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys gwneud toriadau ariannol gwerth £7 miliwn.
- 1.2 Mae diffyg yn y gyllideb am fodoli oherwydd fod y grant gan Lywodraeth Cymru yn gostwng tra bydd chwyddiant a chynnydd yn y galw am wasanaethau yn parhau. Mae'r Cyng or yn bwriadu cynyddu Treth Cyngor i gwrdd â rhan o'r diffyg ond hefyd bwriedir gwneud toriadau ariannol sylweddol yn ogystal ag arbedion pellach. Gellir cael gwybodaeth lawn am gefndir y sefyllfa ariannol ar safle we'r Cyngor.

2.0 TORIADAU POSIBL

- 2.1 Oherwydd y sefyllfa uchod bu i Gabinet Gyngor Gwynedd ystyried rhestr faith o doriadau ariannol posibl. Roedd gwybodaeth wedi ei ddarparu i'r Aelodau ar yr gwahanol wasanaethau, yn cynnwys Gwasanaeth yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) - o ran y gwaith a wneir, cefndir statudol, grantiau ayb.
- 2.2 Yna bu cyfres o weithdai gyda Aelodau Lleol ar y gwahanol opsiynau cyn i'r Cabinet benderfynu ar restr o doriadau posibl i ymgynghori arnynt. Roedd dileu'r Gwasanaeth AHNE yn un o'r toriadau posibl y penderfynwyd ei gynnwys a nodwyd y byddai hynny yn arbed **£39,150** i'r Cyngor.

3.0 YMGYNGHORI AR HER GWYNEDD

- 3.1 Aeth y Cyngor ymlaen i drefnu ymgynghoriad ar y toriadau posibl dan y teitl Her Gwynedd. Nodwyd fod y Cyngor yn awyddus i gael barn pobol Gwynedd ar y sefyllfa. Trefnwyd i gael barn y bobol trwy:
- Cyfarfodydd Galw i Mewn – mewn 19 o leoliadau trwy Wunedd
 - Fforymau Cyhoeddus – mewn 13eg o Ysgolion Uwchradd trwy'r Sir
 - Holiadur – copïau papur ag ar y we.
- 3.2 Mae dull yr ymgynghoriad hwn yn wahanol i'r arfer oherwydd ei fod yn darparu cyfle i unigolion a sefydliadau ddewis pa wasanaethau yr hoffent eu gadw – hyd

at gyfanswm o £5 miliwm. Mae llawer o wasanaethau dan sylw yn cynnwys gwaith amgylcheddol, cynnal ffyrdd, trafndiaeth cyhoeddus, canolfannau hamdden ayb.

- 3.3 Gyda rhai o'r gwasanaethau mae yn bosib cadw gwahanol lefel o wasanaeth sydd yn rhoi mwy/ llai o arbedion. Gyda'r Gwasanaeth AHNE dim ond un opsiwn sydd sef cynnal y Gwasanaeth.
- 3.4 Yn amlwg mae oblygiadau sylweddol i'r toriadau hyn trwy'r Sir, yn ogystal ag i ardal Llŷn.

4.0 Y GWASANAETH AHNE

- 4.1 Mae modd ddewis y Gwasanaeth AHNE fel un o'r gwasanaethau i'w gadw trwy lenwi'r holiadur papur neu electronic. Fodd bynnag, byddai angen cwblhau'r holiadur cyfan i wneud hyn ac nid yw pawb yn dewis gwneud hynny am wahanol resymau. Cafwyd ar ddeall y byddai yn dderbyniol i gefnogi'r Gwasanaeth AHNE yn uniongyrchol trwy ysgrifennu/ e-bostio yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Rheoleiddio.
- 4.2 Ysgrifennwyd atoch fel aelodau o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol yn tynnu sylw at Her Gwynedd a'r bygythiad i'w Gwasanaeth AHNE. Hefyd cysylltwyd efo partneriaid gwaith, rhai sydd wedi derbyn grant o'r Gronfa, unigolion sydd wedi elwa o weithgareddau'r AHNE ayb er eu gwybyddu o'r sefyllfa a gofyn am eu cefnogaeth.
- 4.3 Rydym hefyd ar ddallt fod y Cyngor wedi ymgynghori yn uniongyrchol gyda cyrff fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymgrych Diogelu Cymru Wledig a'r Gymdeithas dros AHNE.

5.0 CAMAU NESAF

- 5.1 Yn wreiddiol roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus i ddod i ben ar y 13eg o Dachwedd ond penderfynwyd ei ymestyn hyd at ddiwedd y mis.
- 5.2 Yn dilyn hyn bydd yr ymateb i'r ymgynghori yn cael ei ddadansoddi – ond nid oes unrhyw wybodaeth hyd yma ynglŷn â sut y bwriedir gwneud hynny.
- 5.3 Deallir wedyn y bydd y toriadau yn cael ei trafod mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn yn gynnar yn 2016 a phenderfyniadau yn cael eu gwneud o ran pa doriadau i'w gweithredu o Ebrill 2016 ymlaen.

6.0 ARGYMHELLIAD

- 6.1 Derbyn yr wybodaeth